| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Cynllunio |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 13 Rhagfyr 2023 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorydd W Mullen-James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Emlyn Jones, Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad |
| **Awdur yr adroddiad** | Karsten Bruβk, Uwch Swyddog Cynllunio |
| **Teitl** | Mynd i'r Afael â'r Argyfwng Natur drwy'r System Gynllunio: Newidiadau Polisi Cynllunio Cenedlaethol i Bennod 6 Polisi Cynllunio Cymru |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r newidiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru i Rifyn 11, Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru ar 11 Hydref 2023; gweler Atodiad 1.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn sefydlu'r egwyddorion allweddol ar gyfer y system gynllunio. Mae'n nodi'r hyn y mae'n rhaid i'r cynlluniau datblygu a'r penderfyniadau a wnaed gan y system gynllunio ei gyflawni a sut y dylid siapio datblygiad i ddarparu'r canlyniadau gorau posibl.

2.2. Rhoi gwybod i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio am y newidiadau mewn polisi cenedlaethol a wnaed i Rifyn 11, Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru a gall fod yn berthnasol ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio ac apeliadau cynllunio.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru gyda'r Awdurdodau Cynllunio Lleol ar y newidiadau arfaethedig i Rifyn 11, Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru yn y Gwanwyn 2023. Bu i'r swyddogion drafod y cynigion gydag Aelodau'r Grŵp Cynllunio Strategol (Ebrill 2023) a'r Pwyllgor Cynllunio (Mai 2023). Dosbarthwyd y dogfennau ymgynghori i'r holl Aelodau, a gafodd wahoddiad i gyflwyno eu safbwyntiau. Cafodd ymateb y Cyngor ei gwblhau a'i gyflwyno i LlC erbyn 31 Mai 2023, gweler Atodiad 2.

4.2. Ysgrifennodd Gweinidog Newid Hinsawdd Cymru, Julie James AS, at yr holl Benaethiaid Cynllunio ar 11 Hydref 2023 i gyhoeddi y byddai pennod 6 diwygiedig y polisi yn dod i rym ar unwaith. Mae'r llythyr yn cael ei ategu gan atodiad sy'n amlinellu'r newidiadau ond ni chafodd ei gyhoeddi cyn 18 Hydref 2023.

4.3. Fel arfer mae newidiadau polisi cynhwysfawr hefyd yn cynnwys cyhoeddi fersiwn newydd o Bolisi Cynllunio Cymru, nid drwy lythyr at y Prif Swyddogion Cynllunio (llythyrau Prif Swyddogion Cynllunio) neu Benaethiaid Cynllunio. Mae LlC yn bwriadu cyhoeddi Rhifyn 12 Polisi Cynllunio Cymru cyn gynted ag y mae'n ymarferol i wneud hynny ac mae'n gweithio gyda budd-ddeiliaid i baratoi dogfennau canllaw ychwanegol. Nid yw swyddogion yn ymwybodol o unrhyw newidiadau sy'n digwydd i Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 5 "Cadwraeth Natur a Chynllunio" (Medi 2009).

4.4. Nid yw LlC wedi cyhoeddi adroddiad ymgynghori gydag adborth ar newidiadau unigol, eto. Fodd bynnag, byddai'r adroddiad ymgynghori yn darparu manylion i Swyddogion ynghylch ffynonellau o wybodaeth, cyfiawnhad, tystiolaeth, ac ystyried dewisiadau amgen. Nes bod yr adroddiad ymgynghori yn cael ei gyhoeddi, dim ond gwybodaeth gefndir gyfyngedig sydd gan Swyddogion i helpu Aelodau gyda rhoi'r polisi ar waith.

4.5. Byddai Swyddogion wedi croesawu cyhoeddi Pennod 6 ar ffurf gyfunol oherwydd natur gymhleth y pwnc. Mae'n anodd olrhain newidiadau fel y cyflwynwyd yn yr atodiad i lythyr y Gweinidog. Mae nifer o 'baragraffau newydd' sy'n nodi polisi

newydd neu'r angen i ddarparu dogfennau ychwanegol gyda cheisiadau cynllunio, ond heb unrhyw rif cyfeirnod i helpu i gyfathrebu'r newidiadau i'r cyhoedd a pharatoi adroddiadau Swyddogion.

4.6. Heblaw am wneud sylwadau ar y polisi drafft fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus yn y Gwanwyn 2023, yn bwyllog, cododd y Swyddogion bryderon o ran effaith y polisi newydd ar adnoddau'r Cyngor yn nhermau argaeledd staff, profiad a monitro. Dylid penderfynu ar geisiadau cynllunio yn bennaf o fewn wyth wythnos. Mae, er enghraifft, dyletswydd statudol newydd i ymgynghori ag Ecolegydd y Cyngor gyda phob cais cynllunio sy'n effeithio ar safle a ddynodwyd yn anstatudol (safleoedd bywyd gwyllt, gwarchodfeydd natur ac ati); gweler Rhifyn 11, Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru (fel y diwygiwyd), paragraff 6.4.20. Mae angen arbenigedd/gwybodaeth ar safonau 'Adeiladu gyda Natur' pan gyflwynir gwybodaeth o'r fath gyda cheisiadau cynllunio yn y dyfodol; gweler Rhifyn 11, Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru (fel y diwygiwyd), y trydydd 'paragraff newydd' o dan baragraff 6.2.5. Nid yn unig y bydd monitro yn dod yn angenrheidiol yn nhermau enillion net bioamrywiaeth ond hefyd o ran rhywogaethau a chynefinoedd sy'n debygol o gael eu hadrodd arnynt mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol Cynlluniau Datblygu Lleol, gweler Rhifyn 11, Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru (fel y diwygiwyd) paragraff 6.2.12.

4.7. Mae Atodiad 3 yn nodi'r newidiadau polisi cenedlaethol (crynodeb); gan ddechrau gyda chyflwyniad cryno i amcanion y polisi cenedlaethol, ac yna'r gofynion ar gyfer paratoi'r cynllun a dewis safleoedd ymgeisiol, ac mae'n cloi gyda'r goblygiadau ar gyfer cyflwyno ceisiadau cynllunio a gwneud penderfyniadau mewn Rheoli Datblygu.

4.8. Mae Swyddogion yn croesawu'r newidiadau mewn egwyddor gan eu bod yn cefnogi Blaenoriaeth Gorfforaethol y Cyngor "Sir Ddinbych mwy gwyrdd" a'r darpariaethau yn "Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol" (2021).

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae gweithredu polisi cenedlaethol ar 'fudd net i fioamrywiaeth' ac 'ecosystemau gwydn' yn cefnogi Blaenoriaeth Gorfforaethol y Cyngor "Sir Ddinbych mwy gwyrdd" a'r darpariaethau yn "Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol" (2021).

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Bydd angen cymorth ychwanegol ar gynllunio yn nhermau gwybodaeth ac arbenigedd yn y maes bioamrywiol, cadwraeth natur a gorfodi.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Ni oes Asesiad o'r Effaith ar Les wedi cael ei gwblhau gan mai eitem wybodaeth i'r Pwyllgor Cynllunio yw'r adroddiad hwn. Cyfrifoldeb LlC yw newidiadau i bolisïau cynllunio cenedlaethol.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cyflwynwyd newidiadau i Rifyn 11, Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru i Aelodau'r Grŵp Cynllunio Strategol ar 13 Tachwedd 2023. Gofynnwyd am hyfforddiant, ac mae Swyddogion yn y broses baratoi. Dylid rhannu'r manylion gyda'r Aelodau pan fyddant ar gael.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'r adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â nodi cynnwys yr adroddiad a'r atodiadau.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Nid oes angen penderfyniad ar gyfer yr adroddiad hwn, mae er gwybodaeth yn unig.